Rhaglen Gyflawn

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD GWENER, 15FED RHAGFYR, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(Am fyediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 7 Rhagfyr 2023)

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Dyfrig Siencyn | Cyngor Gwynedd |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Wrecsam |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Askar Sheibani | Bwrdd Cyflenwi Busnes |
| Yr Athro Edmund Burke | Prifysgol Bangor |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dewi Morgan | Swyddog Adran 151 |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Alwen Williams | Cyfarwyddwr Portffolio |
| Hedd Vaughan Evans | Pennaeth Gweithrediadau |
| Nia Medi Williams | Uwch Swyddog Gweithredol |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2023 fel rhai cywir.

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei chyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd â thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

## 6. GWAITH TREULIO ANAEROBIG GLANNAU DYFRDWY - ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Elgan Roberts (Rheolwr Rhaglen Ynni Carbon Isel) i gyflwyno'r adroddiad (sydd wedi'i gylchredeg i'r aelodau ar wahân).

**7. EGNI - ACHOS BUSNES AMLINELLOL**

Elgan Roberts (Rheolwr Rhaglen Ynni Carbon Isel) i gyflwyno'r adroddiad (sydd wedi'i gylchredeg i'r aelodau ar wahân).

**8. AIL AGOR Y CYFARFOD I'R WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahodd yn ôl i'r cyfarfod.

**9. CYNLLUN GWEITHREDU ADOLYGIAD PORTH (PAR)** 8 - 14

Alwen Williams (Cyfarwyddwr portffolio) a Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau) i gyflwyno'r adroddiad.

**10. EGWYDDORION DENU BUDDSODDIAD** 15 - 17

Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) i gyflwyno'r adroddiad.

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**17/11/23**

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Dr Maria Hinfelaar (Prifysgol Wrecsam) a'r Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neil Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), David Fitzsimon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych).

Swyddogion yn bresennol -

Awdurdod Lletya - Dewi A. Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Uchelgais Gogledd Cymru - Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol), Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf) a Danial Ellis Evans (Swyddog Prosiect Ynni Dros Dro).

Sylwedyddion – Wendy Boddington (Llywodraeth Cymru); Gareth Ashman a Michael Holden (Llywodraeth y DU).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes);
- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda'r Athro Paul Spencer yn dirprwyo;
- Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gyda David Fitzsimon yn dirprwyo;

Croesawodd y Cadeirydd y dirprwyon i'r cyfarfod.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Dr Maria Hinfelaar fuddiant personol yn eitem 6 gan fod Prifysgol Wrecsam yn noddwr y Prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter. Roedd o'r farn bod y buddiant yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr eitem yn ei chyfanrwydd.

Er hynny, nododd Dr Maria Hinfelaar yr hoffai gael eglurhad ar ddau fater penodol ar ryw bwynt, sef:-

- Strwythur yr Achosion Cyfiawnhad Busnes pellach sydd i ddilyn.

- Y proffil gwariant, h.y. faint o arian sy'n cael ei ddyrannu ar y cychwyn a faint sy'n ddibynnol ar yr Achosion Cyfiawnhad Busnes hyn?

Nododd y Cadeirydd y byddai'r esboniad yn cael ei roi dan eitem 6 ac y byddai Dr Maria Hinfelaar yn derbyn esboniad ar wahân gan y swyddogion yn dilyn y cyfarfod.

Datganodd Graham Boase fuddiant personol yn eitem 6 oherwydd ei fod yn Gyfarwyddwr Glyndŵr Innovations Ltd. sy'n eistedd o dan Brifysgol Wrecsam. Roedd o'r farn bod y buddiant yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr eitem yn ei chyfanrwydd.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 27 Hydref, 2023 fel rhai cywir.

**5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

**Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus, fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei chyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd â thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud â'r Cytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.**

**6. ACHOS BUSNES LLAWN Y PROSIECT CANOLFAN OPTEG A PHEIRIANNEG MENTER**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Robyn Lovelock, Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf.

**PENDERFYNWYD**

1. **Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter gan adlewyrchu'r ceisiadau newid a gymeradwywyd yn y cam Achos Busnes Amlinellol ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, i gytuno ac ymrwymo i gytundeb ariannu gyda Phrifysgol Wrecsam er mwyn cyflawni'r prosiect, ar y sail fod Prifysgol Wrecsam yn rhoi sylw i'r materion sy'n weddill fel y nodir yn adran 7 o'r adroddiad.**
2. **Bod y Bwrdd yn nodi y bydd camau diweddarach y prosiect yn amodol ar Brifysgol Wrecsam yn cynhyrchu Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer pob cyfnod gwariant.**

**3. Bod y Bwrdd yn dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, awdurdod i gymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes dilynol o fewn sgôp yr Achos Busnes Llawn ar gyfer cyfnodau diweddarach y prosiect lle mae gwariant a buddion yn unol â'r Achos Busnes Llawn a gyflwynir.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i Achos Busnes Amlinellol y Prosiect Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter.

Cymeradwyodd y Bwrdd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect ar 29 Ebrill 2022 ynghyd â chais am newid yn ymwneud â gostyngiad mewn arian cyfatebol ar gyfer y prosiect. Wedi hynny derbyniodd y prosiect gymeradwyaeth y broses sicrwydd gan Lywodraeth Cymru. Galluogodd hyn i Brifysgol Wrecsam fwrw ymlaen â'r wedd caffael a datblygu Achos Busnes Llawn.

Mae Prifysgol Wrecsam bellach wedi cwblhau'r caffael ar gyfer gwedd 1 y prosiect a bellach yn cyflwyno Achos Busnes Llawn i'r Bwrdd am benderfyniad buddsoddi terfynol.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr eitem.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00yb a daeth i ben am 10.35yb.

Cadeirydd

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

Eitem 9

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**15 Rhagfyr 2023**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cynllun Gweithredu Adolygiad Porth (PAR) |
| **AWDUR:** | Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio<br>Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno cynllun gweithredu mewn ymateb i argymhellion Adolygiad Porth (PAR) 2023 ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn cefnogi'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd gan y Cyfarwyddwr Portffolio a'r amserlenni i'w gweithredu mewn ymateb i argymhellion Adolygiad Porth (PAR) 2023.

2.2 Bod y Bwrdd yn nodi y gall fod gofyn i addasu'r cynllun gweithredu yn sgil yr adolygiad Sicrwydd Cynllun Gweithredu (AAP) dilynol ym mis Rhagfyr ac yn hynny o beth y byddai'r Cyfarwyddwr Portffolio yn ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar yr addasiadau hynny.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Mae'n ofynnol i Gynllun Twf Gogledd Cymru ymateb i'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad Adolygiad Porth.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020,fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Fel rhan o'r trefniadau sicrwydd ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, rhaid i'r portffolio ymgymryd ag asesiad Adolygiad Porth (PAR) blynyddol ac ymateb i'r argymhellion.

4.3. Cynhaliwyd adolygiad 2023 rhwng 16-19 Hydref 2023. Rhoddwyd y dasg i'r Tîm Adolygu adnabod yr hyn sy'n rhwystr i gyflawni'r Cynllun Twf a gwneud argymhellion a fyddai'n galluogi i'r PMO fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn a chyflymu'r broses o gyflawni'r Cynllun Twf. Fe wnaeth yr adroddiad nodi 15 argymhelliad i'r Swyddfa Rheoli Perfformiad fynd i'r afael â nhw.

4.4. Cyflwynwyd yr adroddiad Adolygiad Porth (PAR) i'w Bwrdd fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes y Portffolio 2023 ar 27 Hydref 2023.

4.5. Mae'r cynllun gweithredu sydd wedi'i gynnwys fel Atodiad 1 wedi'i ddatblygu gan y Cyfarwyddwr Portffolio a'r Pennaeth Gweithrediadau yn sgil trafodaethau gyda'r Bwrdd

Uchelgais, y Bwrdd Portffolio a'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu gan y Bwrdd Portffolio ar 24 Tachwedd. Yn sgil yr amserlenni sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad Adolygiad Porth (PAR) a'r angen i ddangos cynnydd erbyn yr adolygiad AAP dilynol ym mis Rhagfyr 2023, mae'r rhan fwyaf o'r gweithrediadau eisoes ar waith. Mae'n cynllun gweithredu yn nodi'r amserlenni ar gyfer cwblhau gweithgareddau ynghyd â'r adnoddau sydd eu hangen.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o'r penderfyniad a geisir. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei gyflawni o fewn adnoddau presennol y PMO.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae'n ofynnol i'r Swyddfa Rheoli Portffolio ymateb i'r argymhellion yn yr Adolygiad Porth a rhoi cynllun gweithredu yn ei le.

---

**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Cynllun Gweithredu Adolygiad Porth (PAR)

---

**PAPURAU CEFNDIR *(Dogfen Eithriedig)*:**

- Adroddiad Adolygiad Porth (PAR) 2023

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**
"Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr argymhelliad ac yn barod i weithio gyda'r Swyddfa Portffolio i gefnogi a chyflawni yr camau gweithredu"

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**
"Rwyf wedi trafod cynnwys yr adolygiad gyda swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru, ac bu swyddogion y Gwasanaeth Cyllid yn rhan o'r cyfweliadau. Nodaf yn benodol fod argymhelliad 11 yn cynnwys cyfeiriad at ganiatáu i bartneriaid gael mynediad i'r gefnogaeth gyllidol mae Swyddfa Rheoli Portffolio yn ei dderbyn gan y Gwasanaeth Cyllid. Nid oes gennyf wrthwynebiad i hyn, ond wrth gwrs rôl y swyddog s151 ydi rhoi'r cefnogaeth briodol i'r Bwrdd Uchelgais ac i'r Swyddfa Rheoli Portffolio ac mae hynny yn cynnwys herio a gwirio yr wybodaeth a chynlluniau mae'r partneriaid yn eu cyflwyno. Petai gofyn i'r Gwasanaeth Cyllid roi cefnogaeth uniongyrchol i unrhyw bartneriaid byddaf yn rhoi camau yn eu lle i sicrhau na fydd hyn yn creu gwrthdaro buddiannau nac yn gwanhau'r trefniadau llywodraethiant mewn unrhyw fodd.

Credaf fod yr ymatebion sy'n cael eu cynnig yn y cynllun gweithredu yn rhesymol ac yn realistig ac rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir."

**Atodiad 1**

**CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – CYNLLUN GWEITHREDU ADOLYGU PORTH**

<u>Cyd-destun</u>

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn derbyn argymhellion yr adroddiad PAR a bydd yn rhoi camau ar waith i fynd i'r afael â'r rhain, fodd bynnag, ein barn ni yw nad yw'n bosibl mynd i'r afael â'r 15 argymhelliad yn yr amserlenni a nodir yn yr adroddiad heb ddargyfeirio adnoddau sylweddol o ddarparu prosiectau. Gan y byddai hyn yn groes i ddiben cyffredinol yr adolygiad a'r argymhellion i gynyddu cyflymder y cyflawniad, mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi blaenoriaethu'r argymhellion ac yn cynnig dyddiadau targed newydd y gellir eu cyflawni.

| Cyfeirnod | Argymhelliad | Brys | Dyddiad targed PAR i'w gwblhau | Gweithred arfaethedig | Perchennog Gweithredu | Adnoddau | Dyddiad targed Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Dylai'r SRO sicrhau bod y camau canlynol yn cael eu gweithredu i wella effeithiolrwydd y broses lywodraethu:<br>• Dylid symleiddio'r broses benderfynu gyfan o ran nifer y rhyngweithiadau bwrdd sy'n ofynnol yn enwedig o ran datblygu achosion busnes.<br>• Dylai'r Bwrdd Uchelgais Economaidd fod yn barod i gymeradwyo FBCs perthnasol y tu allan i'r Pwyllgor i hwyluso'r broses o symud i gyflawni. Gall achosion busnes newydd nad oes angen caniatâd cynllunio arnynt gael eu cyflymu'n gyflymach<br>• Dylid uno'r Byrddau Prosiect a Rhaglen ar gyfer prosiectau mewnol gyda'r olaf yn gwneud yr adolygiadau achos busnes. | Hanfodol | Diwedd Tachwedd 2023 | 1a) PMO i gomisiynu adolygiad allanol o'r broses sicrhau a chymeradwyo gan gynnwys proses gwneud penderfyniadau. | Pennaeth Gweithrediadau | Costau i'w talu o'r gyllideb bresennol ar gyfer datblygu portffolios. | Comisiwn erbyn mis Rhagfyr 2023. Mabwysiadwyd ym mis Mawrth 2024. |
| | | | | 1b) Ar ôl ymgynghori â Swyddog Monitro nid yw'n bosibl o dan GA2 i’r Bwrdd Uchelgais wneud penderfyniadau FBC y tu allan i'r pwyllgor. Bwrdd Uchelgais i gynnal cyfarfodydd arbennig ychwanegol os oes angen penderfyniadau brys (5 diwrnod o rybudd) | Swyddog Monitro | Amh | Cyfarfodydd arbennig i'w cynnal yn ôl yr angen. |
| | | | | 1c) PMO i adolygu trefniadau mewnol. Arweiniodd y cynnig i’r PMO uno byrddau prosiectau ynni a digidol gyda'r bwrdd rhaglen perthnasol i oruchwylio'r cyflawniad. PMO i ystyried uno Byrddau Rhaglen Bwyd Amaeth a Thwristiaeth ac Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel neu gyfuno'r cyfarfodydd. | Pennaeth Gweithrediadau | Staff PMO presennol | Adolygu ac ymgynghori â Byrddau perthnasol erbyn Ionawr 2023. Penodwyd ym mis Chwefror 2024. |

| Cyfeirnod | Argymhelliad | Brys | Dyddiad targed PAR i'w gwblhau | Gweithred arfaethedig | Perchennog Gweithredu | Adnoddau | Dyddiad targed Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2** | Dylai'r SRO sicrhau, er mwyn lliniaru hyd yr amser i gymeradwyaeth OBC, y dylid gweithredu proses gymeradwyo fwy hyblyg, gan gynnwys:<br><br>Dylai lefel y sicrwydd ar gyfer prosiectau llai fod yn gymesur a dylid cyflymu prosiectau newydd nad oes angen caniatâd cynllunio arnynt.<br><br>Yn ogystal â darparu enghreifftiau, dylai'r PMO wirio prosiectau newydd sy'n meddwl am y cynnwys y maent yn bwriadu ei ddarparu ar gyfer pob un o bum cam yr achosion busnes. | Hanfodol | Diwedd Tachwedd 2023 | 2a) Ymdrin â gweithredu 1a | Amh | Amh | Amh |
| | | | | 2b) Ymdrin â gweithredu 1a | Amh | Amh | Amh |
| | | | | 2c) PMO i ddatblygu templed ar gyfer crynodeb prosiect lefel uchel i ganolbwyntio ar gwestiynau allweddol ym mhob achos – gan adeiladu ar ffurflen gais gychwynnol ar gyfer prosiectau newydd. | Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf | Staff PMO presennol | Diwedd mis Mawrth 2024. |
| **3** | Dylai'r SRO drafod gyda Thîm Rhanbarthol Cymru sefydlu fforwm Cynllun Twf Cymru i ddarparu cefnogaeth ar y cyd a rhannu arfer gorau o ddylunio achosion busnes ledled Cymru. | Argymelledig | Amh | 3a) Cais i Lywodraeth Cymru ystyried sefydlu fforwm Cynllun Twf Cymru. | Cyfarwyddwr Portffolio | Amh | Gwneud cais erbyn mis Rhagfyr 2023 |
| **4** | Dylai'r SRO geisio sefydlu cylch priodol o gyfathrebu ar lefel strategol rhwng uwch swyddogion ym meysydd polisi perthnasol UKG, LlC a'r Portffolio ar y lefel strategol. Dylai'r canlyniadau fynd i lawr i lefel weithredol i sicrhau bod y prosiect yn cael ei alinio. Yn benodol, dylid datblygu Cynllun B ar gyfer prosiectau lle mae hyfywedd yn ansicr oherwydd datblygu polisi. | Hanfodol | Diwedd Ch1 2024 | 4a) Gofyn am gyfarfodydd strategol chwarterol gydag arweinwyr polisi'r DU/Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â meysydd rhaglenni. | Cyfarwyddwr Portffolio | Amh | Gwneud cais erbyn mis Rhagfyr 2023 |
| | | | | 4b) Strategaeth lliniaru sydd eisoes ar waith ar gyfer rhai prosiectau. PMO i ddatblygu strategaethau tebyg ar gyfer Digidol a Hydrogen. | Rheolwr Rhaglen Ynni a Rheolwr Rhaglen Ddigidol | Staff PMO presennol | Diwedd mis Mawrth 2024. |

| Cyfeirnod | Argymhelliad | Brys | Dyddiad targed PAR i'w gwblhau | Gweithred arfaethedig | Perchennog Gweithredu | Adnoddau | Dyddiad targed Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **5** | Dylai'r PMO fabwysiadu dull Portffolio o gydbwyso/ystwytho adnoddau o fewn / ar draws prosiectau yn ôl yr angen, gan flaenoriaethu ailddyrannu adnoddau i'r prosiectau hynny sy'n agos at gyflawni. | Hanfodol | Gwneud yn awr | 5) Piblinell prosiectau â blaenoriaeth wedi'i adnabod a Sgrym PMO wythnosol wedi'i sefydlu i dasgau ac adnoddau a ddyrannwyd. | Pennaeth Gweithrediadau | Adnoddau PMO mewnol o Ddigidol, Sgiliau a Gweithrediadau (2 x Rheolwr Prosiect, Swyddog Prosiect 1x) wedi'u hailddyrannu i gefnogi piblinell prosiect â blaenoriaeth. | Parhaus – adolygiad ym mis Rhagfyr 2023 |
| **6** | Dylai'r PMO atgoffa aelodau'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais o'u rhwymedigaethau i sicrhau bod cyfathrebu negeseuon i staff rheng flaen sy'n ymwneud â chyflawni'r Cynllun Twf yn gadarn ac yn amserol. | Hanfodol | Yn y cyfarfod Bwrdd Uchelgais nesaf | 6) Trafodwyd mewn sesiwn strategol. Arweinydd Cyfathrebu Strategol Newydd i adolygu cyfathrebiadau mewnol mewn partneriaeth a gweithredu'r newidiadau gofynnol i gefnogi'r Bwrdd Uchelgais a'r Bwrdd Portffolio i rannu negeseuon allweddol. | Arweinydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol | Staff PMO presennol | Adolygiad wedi'i gwblhau erbyn Chwefror 2024 |
| **7** | Dylai'r Bwrdd Uchelgais sicrhau her gadarn i arianwyr am dystiolaeth sydd ganddynt ac y byddant yn ymrwymo digon o adnoddau ymlaen llaw i gefnogi datblygu a chynllunio prosiectau. | Hanfodol | Parhaus | 7) PMO i gynnal adolygiad risg gan gynnwys sut mae risgiau prosiect yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais. Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais i ysgrifennu at brosiectau lle nodir capasiti/adnoddau fel risg. | Pennaeth Gweithrediadau a Rheolwr Rhaglen Ddigidol (Arweinydd Risg) | Staff PMO presennol | Diweddariad erbyn Ionawr 2023. Penodwyd ym mis Mawrth 2024 |
| **8** | Dylai'r PMO sicrhau ei fod yn monitro ffactorau risg allanol hysbys, megis newidiadau polisi a mentrau cysylltiedig. Mae gweithio'n agos gyda LlC/UKG yn y maes hwn yn llawer cynharach yn hanfodol er mwyn sicrhau bod dewisiadau strategol ar gyfer prosiectau yn cael eu hoptimeiddio. | Hanfodol | Parhaus | 8) Adolygiadau risg yn 7a hefyd i ystyried risg strategol a pherthynas â LlC / UKG. Bydd cyfarfodydd strategol a nodir yn 4a hefyd yn cefnogi'r argymhelliad hwn. | Amh | Amh | Amh |

| Cyfeirnod | Argymhelliad | Brys | Dyddiad targed PAR i'w gwblhau | Gweithred arfaethedig | Perchennog Gweithredu | Adnoddau | Dyddiad targed Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **9** | Dylai'r SRO sicrhau bod tynnu sylw yn cael ei leihau/lliniaru ar gyfer pob aelod o'r Portffolio am o leiaf y 6 mis nesaf nes bod cyfradd y prosiectau sy'n mynd i'r ddarpariaeth yn cael ei gwella yn unol â Chytundeb y Cynllun Twf os yw'n briodol. | Hanfodol | Nawr nes y bydd y cyflenwad yn gwella | 9) Cyfyngu a blaenoriaethu presenoldeb PMO a/neu gyflwyniadau mewn digwyddiadau/cynadleddau allanol am y chwe mis nesaf. | Cyfarwyddwr Portffolio a Phennaeth Gweithrediadau | Staff PMO presennol | Parhaus – adolygiad ym mis Mawrth 2024 |
| **10** | Dylai'r Pennaeth Gweithrediadau sicrhau bod y gofynion ar gyfer mynediad i'r Portffolio ac ar gyfer pob cam o ddatblygu achosion busnes yn cynnwys ymgymryd â hyfforddiant caffael sy'n canolbwyntio ar y sector cyhoeddus a chynnwys caffael drwyddi draw, tystiolaeth o nodi a gweithredu risg gweithredol i liniaru a chynlluniau sy'n dangos asesiad risg cadarn a sgôr hyder canran. | Hanfodol | Yn ei le erbyn diwedd Tachwedd 2023 ac yn parhau | 10a) PMO yn adolygu pecynnau hyfforddiant caffael sydd ar gael i arianwyr | Rheolwr Caffael a Gwerth Cymdeithasol | Staff PMO presennol | Diweddariad erbyn Ionawr 2023. Penodwyd ym mis Mawrth 2024 |
| | | | | 10b) Adolygiad risg yn 7a hefyd i ystyried sut mae prosiectau yn dangos tystiolaeth o reoli risg gweithredol. Ystyried defnyddio drwy gynlluniau gweithredu ymateb risg. | Amh | Amh | Amh |
| **11** | Dylai'r SRO archwilio gyda mecanweithiau partneriaid ar gyfer galluogi mynediad PMO at arbenigedd cyfreithiol ac ariannol ychwanegol er mwyn osgoi oedi wrth ddatblygu achosion busnes a'r llwybr i'w gyflawni. | Hanfodol | O fewn y chwe wythnos nesaf | 11) Piblinell prosiectau â blaenoriaeth wedi'i adnabod a Sgrym Cyfreithiol/Cyllid wythnosol wedi'i sefydlu i ddyrannu tasgau ac adnoddau. | Pennaeth Gweithrediadau, Swyddog Monitro a Swyddog s151. | Adnoddau Gwynedd ynghyd â Pinsent Masons & Arlingclose pan fo angen. | Parhaus – adolygiad ym mis Rhagfyr 2023 |
| **12** | Dylai'r PMO adolygu rôl ac aelodaeth y PMO i benderfynu pryd a sut y gall ei arbenigedd fod yn fwy effeithiol wrth gefnogi cynnydd i gyflawni. | Argymelledig | Amh | 12) Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais a Chadeirydd y Bwrdd Cyflenwi Busnes i adolygu aelodaeth ac amrywiaeth y Bwrdd | Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd<br><br>Cadeirydd y Bwrdd Cyflenwi Busnes | Amh | Diweddaru erbyn Rhagfyr 2023. Mabwysiadu ym mis Mawrth 2024. |

| Cyfeirnod | Argymhelliad | Brys | Dyddiad targed PAR i'w gwblhau | Gweithred arfaethedig | Perchennog Gweithredu | Adnoddau | Dyddiad targed Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **13** | Dylai'r SRO a'r Bwrdd Uchelgais ar y cyd gymryd y camau canlynol fel mater o flaenoriaeth:<br><br>Dylid cyflwyno "Tîm Cyflenwi Cyflym" i gefnogi rheolwyr prosiect cyfredol/PMO i gael y prosiectau hynny yn agos at y llinell i'w cyflawni.<br><br>Dylai arweinydd y Tîm Cyflenwi Cyflym weithio gyda'r grŵp arweinyddiaeth PMO presennol i oruchwylio'r gwaith gan gynnwys rheoli perthnasoedd heriol gan gynnwys rhanddeiliaid y sector preifat. | Beirniadol | Gwnewch yn awr | 13) PMO i gaffael fframwaith o arbenigedd arbenigol i gefnogi'r PMO i gael prosiectau i'w cyflawni. Mae llawer yn debygol o gynnwys:<br>➢ PPM a Rheoli Risg;<br>➢ Trafodaethau masnachol;<br>➢ Caffael;<br>➢ Hyfywedd ariannol;<br>➢ Carbon a Bioamrywiaeth;<br><br>*Gweler pwyntiau gweithredu 5&11 mewn perthynas a threfniadau piblinell blaenoriaeth sgrym. | Pennaeth Gweithrediadau | Cyllideb gychwynnol o £200k ar gael drwy oedi recriwtio swyddogion prosiect newydd ar gyfer Ynni ac Eiddo | Lansio caffael – Rhagfyr 2023<br><br>Proses ddethol – Ionawr 2024<br><br>Gweithredol – Chwefror 2024 |
| **14** | Dylid penodi Cyfarwyddwr Anweithredol i'r Bwrdd Uchelgais i ddarparu lefel uwch o her o ffynhonnell annibynnol. | Hanfodol | O ddiwedd Rhagfyr 2023 | 14) Bwrdd Uchelgais Economaidd i ystyried argymhelliad. | Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd | Amh | Penderfyniad erbyn Mawrth 2024 |
| **15** | Dylai'r Pennaeth Gweithrediadau sicrhau bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar amlygu'r berthynas rhwng allbynnau, canlyniadau a manteision datblygu achosion busnes a sut y bydd y rhain yn cael eu mesur a'u meintioli. Dylai aelodau eraill o'r PMO barhau i gyfrannu at wreiddio'r cynllun Gwireddu Buddion mewn achosion busnes penodol. | Hanfodol | O ddiwedd Tachwedd 2023 Gyda'r holl achosion busnes presennol yn cael eu datblygu ac yn parhau | 15a) PMO i rannu Cynllun Buddion Portffolio a Chynlluniau Buddion Rhaglen gyda'r holl brosiectau fel y templed ar gyfer cynlluniau budd prosiectau. | Rheolwyr Rhaglen | Staff PMO presennol | Erbyn Rhagfyr 2023 |
| | | | | 15b) Byrddau Rhaglen i gynnwys adolygiad treigl neu gynlluniau buddion prosiect. | Rheolwyr Rhaglen | Staff PMO presennol | Parhaus - Gweithredu erbyn Ionawr 2024 |

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**15 Rhagfyr, 2023**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Egwyddorion Denu Buddsoddiad |
| **AWDUR:** | Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r egwyddorion buddsoddi a'r sail i'r strategaeth ar gyfer denu arian y Cynllun Twf a datblygiad economaidd rhanbarthol ehangach yng Ngogledd Cymru. Mae pob un yn gwasanaethu fel canllaw i ategu ein cryfderau a'n cyfleoedd i fuddsoddwyr.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn cefnogi'r egwyddorion sylfaenol fel sail i'r strategaeth fydd yn gosod allan y dull o gyflawni'r amcanion buddsoddi ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

2.2 Bod y Bwrdd yn nodi y bydd y strategaeth fuddsoddi gynhwysfawr, sy'n cynnwys yr egwyddorion sylfaenol a'r cynllun cyflawni, yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn Chwefror 2024.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. I ategu datblygiad y strategaeth fanwl a fydd yn adeiladu ar y sicrwydd o'n huchelgais ar y cyd i gyflawni'r Cynllun Twf gwerth £1bn ar gyfer Gogledd Cymru.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Mae gan y pum rhaglen Cynllun Twf gyfanswm targed buddsoddi cyfalaf o £1biliwn.

4.2. O'r cyfanswm hwn, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £240 miliwn ac mae disgwyl i £760 miliwn o gyfalaf ychwanegol ddod o ffynonellau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Bydd y buddsoddiad ar y cyd yn cyfrannu at dwf economaidd y rhanbarth dros dymor o ddeg i bymtheg mlynedd.

4.3. Mae'r ymrwymiad a'r amcan ariannol ar y cyd yma'n hanfodol i wella isadeiledd y rhanbarth, a thrwy hynny greu cyfle mwy deniadol i'r sector fusnes. Mae'r dull nid yn unig yn ehangu ein cryfderau rhanbarthol ond mae hefyd yn rhoi hwb cystadleuol sylweddol i ni ym marchnad y DU cyfan ac yn fyd-eang. Mae'r Cynllun Twf yn gosod sylfaen gadarn i economi Gogledd Cymru ffynnu a sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n rhagori ar ei hamcanion buddsoddi cychwynnol.

4.4. Datblygwyd yr egwyddorion buddsoddi a nodir ym mhwynt 4.5 mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Cyflawni Busnes a'r Bwrdd Portffolio ac fe'i cefnogir gan ymarfer ymchwil parhaus a

gynhelir gan ymgynghoriaeth Savills a fydd yn llywio'r ddogfen strategaeth fuddsoddi derfynol a fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Chwefror.

4.5. Bydd y set ganlynol o egwyddorion yn llywio ein strategaeth sylfaenol i drosoli buddsoddiad:

- **Sbarduno cydweithio** – mae Uchelgais Gogledd Cymru yn chwarae rhan ganolog wrth uno rhanddeiliaid rhanbarthol - i gyflwyno croeso cydlynol, cydweithredol 'Tîm Gogledd Cymru' i fuddsoddwyr posib, i adeiladu perthnasoedd a throsoli cyfleoedd trawsffiniol.
- **Adeiladu ar ein cryfderau** – rydym yn blaenoriaethu ein pobl, sgiliau, diwylliant, iaith a threftadaeth, ac yn manteisio ar ein sectorau diwydiannol ac ynni carbon isel, gan wahodd buddsoddwyr i ymuno â ni i greu partneriaethau effeithiol sy'n pwysleisio gwerth cymdeithasol a manteision cymunedol.
- **Hyrwyddo ein safleoedd magnet fel sylfeini ar gyfer twf rhanbarthol** - gan dynnu sylw at eu potensial ar gyfer buddsoddiadau, sgiliau a chydweithrediadau newydd, gan arddangos ein parodrwydd ar gyfer busnes.
- **Gwella ein gwelededd i ddatgloi buddsoddiad** – rydym yn ymrwymo i ddatblygu a marchnata cyfleoedd buddsoddi strategol, gan eu hyrwyddo yn weithredol i bontio bylchau gwybodaeth a grymuso ymgysylltiad buddsoddwyr yn hyderus ac effeithiol.
- **Adeiladu cyfleoedd o raddfa** – ein nod yw targedu ystod eang o fuddsoddwyr, o lleol i ryngwladol. Drwy becynnu ein cynlluniau i greu cyfleoedd o raddfa sylweddol, gallwn gyflawni prosiectau sy'n debygol o apelio mewn marchnad buddsoddwyr ehangach.
- **Hyrwyddo canol ein trefi** - mae canol trefi deinamig yn hanfodol i gefnogi datblygiad economïau drwy gydol y flwyddyn a mynd i'r afael â heriau'r farchnad lafur. Byddwn yn hyrwyddo'r cyfleoedd i fuddsoddi a'r partneriaethau cyfredol sy'n trawsnewid ein trefi.
- **Meithrin cyfle drwy ddatblygu strategol** - rydym yn ymrwymo i wrthdroi'r duedd o ddirywiad yn y boblogaeth ac allfudo pobl fedrus trwy gyd-greu a chyflwyno cynlluniau datblygu strategol a chynllun trafnidiaeth ranbarthol sy'n creu cymunedau ffyniannus, hygyrch a chysylltiedig da.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o'r penderfyniad a geisir.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol o'r penderfyniad a geisir.

## 7. ASESIADAU EFFAITH

7.1. Mae'r egwyddorion buddsoddi a'r strategaeth fanwl i'w chyflwyno ym mis Chwefror yn cefnogi yn y broses o gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. Nod Uchelgais Gogledd Cymru drwy ei bortffolio o raglenni a phrosiectau, ynghyd â'r prosesau a roddwyd ar waith, yw sicrhau y bydd y Cynllun Twf yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r 7 nod llesiant. Bydd y strategaeth fuddsoddi yn sicrhau bod ein dull o sicrhau buddsoddiad ar gyfer y Cynllun Twf yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7.2. Bydd y Cynllun Twf yn cael effaith niwtral ar gydraddoldeb yn erbyn yr 11 nodwedd warchodedig. Mae prosiectau'r Cynllun Twf yn cael eu cyd-gynhyrchu drwy bartneriaethau sy'n cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector preifat, cyrff ymchwil a'r bartneriaeth sgiliau rhanbarthol, gyda'r ffocws ar ymgysylltu er mwyn sicrhau effaith bositif ar y rhai sydd o dan anfantais yn ôl rhyw, anabledd, ethnigrwydd neu oedran.

7.3. Bydd cyflawni'r Cynllun Twf yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg, gan fynd ati i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y rhanbarth.

7.4. Cwblheir Asesiad Effaith Unigol ar gyfer pob prosiect fel rhan o ddatblygiad yr Achos Busnes.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Byddaf yn darparu unrhyw sylwadau ynglŷn a phriodoldeb yn y cyfarfod."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol."